**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD**

**BLAENRAGLEN WAITH DRAFFT**

**Mai 2000 i Ragfyr 2001**

**Dyletswyddau'r Pwyllgor**

1. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn un o saith pwyllgor pwnc. Amlinellir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad:

"9.7. bydd pob pwyllgor pwnc

i. yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;
ii. yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; ac
iii. yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat.

8. O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd:

i. yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan reol sefydlog 22;
ii. yn rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â rheol sefydlog 19;
iii. yn cyflawni ei swyddogaethau o dan reol sefydlog 21 (cwynion);
iv. yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan reol sefydlog 21; ac
v. yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

2. Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn gofyn i'r pwyllgor pwnc gynnal rhalen waith dreigl a fydd yn cynnwys cyfnodau o 12 mis o leiaf.

Am fanylion ynghylch aelodau'r Pwyllgor, cliciwch yma *[gosoder gorgyswllt]*

**Nodau ac Amcanion y Pwyllgor**

3. Bydd y Pwyllgor yn ceisio cyfrannu at gyflawni'r nodau a'r amcanion a amlinellir yn "Gwell Cymru", cynllun strategol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig felly, adeiladu 'gwell economi, economi gryfach'. Felly, amcan y Pwyllgor yw "creu economi flaengar, ddeinamig a mwy amrywiol a fydd yn rhoi cyfle i bawb ffynnu".

**Y Cynlluniau Statudol**

4. Bydd y Pwyllgor hefyd yn talu sylw i gynlluniau statutol y Cynulliad Cenedlaethol o ran cysylltiadau ag awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, y cynllun datblygu cynaliadwy a'r trefniadau i ymgynghori â'r byd busnes.

**Blaenoriaethau'r Pwyllgor**

5. Mae "Gwell Cymru" yn amlinellu nifer o faterion ar gyfer gweithredu'n fuan gan y Cynulliad. Bydd y Pwyllgor yn chwarae ei ran i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu a glustnodir ym mhennod 5 'Gwell economi, economi gryfach' a phennod 4 'Gwell cyfleoedd dysgu'. Yn arbennig :

- **Strategaeth datblygu economaidd genedlaethol i hybu swyddi a menter**
- **Strategaeth Ewropeaidd effeithiol a chorff newydd i helpu i'w chyflwyno**
- **Cronfa ddatblygu i helpu busnesau bach a chanolig**
- **Gwasanaeth allforio wedi'i ail-wampio ac ymgyrch farchnata o'r radd flaenaf i Gymru**
- **Strategaeth yr oes wybodaeth i helpu Cymru gyfan i elwa ar yr uwchdraffordd wybodaeth.**
- **Gwell cysylltiadau rhwng addysg a busnes**
- **Hyrwyddo mentergarwch**

**Blaenraglen Waith**

6. Bydd goruchwylio Amcan 1 a rhaglenni eraill sy'n gysylltiedig â'r cronfeydd strwythurol yn dal i fod yn flaenoriaeth bennaf i'r Pwyllgor hyd y gellir rhagweld. Fodd bynnag, gall y Pwyllgor hefyd gyfrannu at y nodau a'r amcanion a amlinellir yn Gwell Cymru yn y modd canlynol:

- Sicrhau bod Cymru'n cael ei marchnata'n effeithiol ac mewn modd sy'n pwysleisio'i harwahanrwydd a bod gweledigaeth a chynllun clir o ran datblygu economaidd ar draws Cymru gyfan mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd, gan adolygu a gwella'r Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol, ac argymell targedau priodol a monitro a gwerthuso sut y cyrhaeddir y targedau hynny;

- Sicrhau y gwneir defnydd llawn o'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd i bontio'r bwlch rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig a

rhwng gorllewin a dwyrain Cymru a monitro sut y gweithredir y Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol, pa mor effeithiol ydynt a sut y cânt eu hariannu;

- Cymryd mwy o ran yn yr economi drwy ddeall achosion segurdod economaidd ac ystyried dulliau o helpu pobl i ail-ymuno â'r gweithlu;
- Hyrwyddo twf mewn mentrau a busnesau (gan gynnwys mentrau cymunedol), drwy gefnogi'r Cynllun Gweithredu Mentergarwch, ystyried cymhorthion gweithredu, ac o ganlyniad i'r arolwg cymorth a datblygu busnes, gwneud argymhellion a chynlluniau ar gyfer rhaglenni newydd;
- Sicrhau y gall Cymru elwa ar dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu drwy adolygu'r cynlluniau a'r strategaethau ar gyfer Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu;
- Hyrwyddo datblygu cynaliadwy, drwy gynorthwyo i ddatblygu polisi ynni i Gymru a thrwy ystyried pob polisi o ran elfennau sy'n ymwneud â chynhaliaeth;
- Hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i ymwelwyr ac, felly, cynyddu'r cyfraniad y mae twristiaeth yn ei wneud i economi Cymru drwy fonitro effeithlonrwydd y Strategaeth Dwristiaeth ac ystyried opsiynau i ddatblygu'r diwydiant twristiaeth, bwydydd amaethyddol a'r diwydiannau diwylliannol.

7. Yn ogystal, bydd y Pwyllgor yn adolygu perfformiad Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru yn rheolaidd; yn ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad; yn ystyried is-ddeddfwriaeth lle bo'n briodol; yn derbyn adroddiadau rheolaidd o du Ysgrifennydd y Cynulliad; yn adolygu materion traws-bynciol megis cyfle cyfartal a datblygu cynaliadwy; yn datblygu perthynas gref â'r byd busnes (fel sy'n ofynnol gan y Cynllun Ymgynghori â Busnes sydd gan y Cynulliad).

**RHAGLEN FANWL**

*[I'w hail-wampio ar ffurf amserlen cyfarfod wrth gyfarfod.]*

| **Blaenoriaethau'r Pwyllgor** | **Amserlen** | **Targedau Gwell Cymru** |
|---|---|---|
| **MEYSYDD DATBLYGU POLISI** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.Adolygu cymorth a datblygu busnes**<br><br>Bydd yr adolygiad yn<br><br>• Clustnodi'r ystod bresennol o raglenni o ran cymorth a datblygu busnes<br>• Ystyried eu heffeithlonrwydd ac a ydynt yn bodloni anghenion busnes<br>• Sefydlu a yw'r dulliau cyflwyno yn briodol, gan glustnodi unrhyw le i wella ac ad-drefnu.<br>• Yng nghyd-destun y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol (NEDS), clustnodi bylchau yn y ddarpariaeth a gwneud argymhellion ar sut y gellir cyflawni'r amcanion<br>• Yng nhyd-destun cyflawni'r amcanion a amlinellir yn y NEDS, ystyried pa mor ddigonol yw'r trefniadau monitro a gwerthuso presennol a gwneud argymhellion ar sut i'w gwella.<br><br>**Allbwn:** adroddiad gan y Pwyllgor yn arwain at ddadl yn y cyfarfod llawn ac argymhellion am welliannau, ad-drefnu a/ neu ddarpariaeth ychwanegol i sicrhau y gellir cyflawni targedau NEDS. | Chwefror – Tachwedd 2000 | • Creu economi flaengar, gystadleuol a mwy amrywiol, a chanddi sector busnesau bach a chanolig deinamig<br><br>• Bydd Cronfa neu 'Fanc' Datblygu annibynnol yn cael ei lansio i helpu i ysgogi datblygiad ymhlith busnesau bach a chanolig |

| | | |
|---|---|---|
| **2.Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol**<br><br>Y Pwyllgor Datblygu Ewropeaidd i ail-lansio'r NEDS drafft ac ymgynghori ar fwrw ymlaen ag ef. Ymysg agweddau eraill, ystyrir y canlynol :<br><br>• Ffurfio Strategaeth Gyflogaeth (CETW etc)<br>• Ffurfio polisi i ymateb i segurdod economaidd<br>• Canlyniad adolygiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd o Gymorth a Datblygu Busnes<br>• Canlyniad adolygiad y Pwyllgor o Dechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu.<br>• Cynllun Mentergarwch Cymru<br>• Cysylltiadau rhwng addysg uwch a diwydiant (gyda'r Pwyllgor ar ôl 16 oed)<br>• Materion gwledig gan gynnwys arallgyfeirio (gyda'r Pwyllgor Amaeth)<br>• Materion sy'n ymwneud â seilwaith, gan gynnwys trafnidiaeth (gyda'r Pwyllgorau Llywodraeth Leol a Thrafnidiaeth)<br>• Gwyddoniaeth a thechnoleg yng Nghymru<br>• TGaCh/buddsoddiad mewn gwybodaeth<br>• Dulliau o glustnodi'r potensial am dwf<br>• Diwydiannau celfyddydol, diwylliannol a chyfryngol (gyda'r Pwyllgor ar ôl 16 oed) | Ail-lansio – Mis Hydref, ymgynghoriad i ddilyn<br><br>NEDS i groesawu canlyniad adolygiadau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd o Gymorth a Datblygu Busnes, a Thechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu | • Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol i hyrwyddo swyddi a menter.<br><br>• Annog pobl, gan gynnwys y bobl hynny mewn ardaloedd difreintiedig, i fod yn greadigol a throi syniadau da'n fusnesau newydd drwy roi elfennau cytûn o Gynllun Gweithredu Mentergarwch Cymru ar waith.<br><br>• Creu economi flaengar, gystadleuol a mwy amrywiol, a chanddi sector busnesau bach a chanolig deinamig |

| | | |
|---|---|---|
| • Rôl y Pwyllgor wrth fonitro a gwerthuso'r modd y cyflawnwyd targedau NEDS.<br><br>**Allbwn:** Gwneud argymhellion ar ffurf derfynol y NEDS | | |
| **3. Adolygiad o dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu**<br><br>(Cylch gwaith i'w bennu)<br><br>Ymgymryd ag adolygiad o dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu yng Nghymru er mwyn datblygu strategaeth sy'n addas i'r oes wybodaeth a denu buddsoddiad sy'n seiliedig ar wybodaeth. | Yr adolygiad i gychwyn ym mis Tachwedd 2000 (gan adeiladu ar ganlyniad yr Adolygiad o Gymorth Busnes) | • Strategaeth yr oes wybodaeth i helpu Cymru gyfan i elwa ar yr uwchdrafffordd wybodaeth.<br>• Bydd o leiaf 50% o gwmnïau'n defnyddio e-fasnach<br>• Creu economi flaengar, gystadleuol a mwy amrywiol, a chanddi sector busnesau bach a chanolig deinamig<br>• Cynyddu nifer y swyddi a gwella'u hansawdd a lleihau diffyg gweithgarwch economaidd, yn arbennig mewn ardaloedd llai llewyrchus |
| **4. Cronfeydd Strwythurol – Monitro a Gwerthuso**<br><br>Ystyried cynigion a ffurfio argymhellion ar fonitro a gwerthuso rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Yr ystyriaeth i gynnwys rôl y Pwyllgor o ran monitro a gwerthuso. | Mis Tachwedd – yn dilyn cwblhau'r adolygiad o Gymorth a Datblygu Busnes. | • Cynyddu nifer y swyddi a gwella'u hansawdd a lleihau diffyg gweithgarwch economaidd, yn arbennig mewn ardaloedd llai llewyrchus<br><br>• Gweithredu ar gyfle cyfartal fel conglfaen Cronfeydd Strwythurol Ewrop |

| | | |
|---|---|---|
| **5. Datblygu polisi ynni**<br><br>(cysylltiadau agos â'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy sydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru)<br><br>**Allbwn:** Ymgynghori ac ystyried yn arwain at argymhellion am bolisi ynni drafft | Ebrill 2001 | • Symbylu datblygiad sy'n diogelu adnoddau naturiol ac yn parchu'r amgylchedd<br><br>• Annog gwell effeithlonrwydd ynni ym myd diwydiant<br><br>• Datblygu fframwaith strategol ar gyfer materion yn ymwneud ag ynni yng Nghymru |
| **6.Strategaeth Twristiaeth**<br><br>Gwneud y gorau o gyfraniad y diwydiant twristiaeth at ddatblygu economaidd.<br><br>**Allbwn:** Ymgynghori ac ystyried yn arwain at argymhellion ar intregreiddiad strategol y gwahanol sectorau sy'n chwarae rhan yn y diwydiant twristiaeth. | | • Creu economi flaengar, gystadleuol a mwy amrywiol, a chanddi sector busnesau bach a chanolig deinamig<br>• Hybu proffil a dylanwad rhyngwladol Cymru a sicrhau ei bod yn lle rhagorol i fyw, astudio, cynnal busnes ac ymweld â hi<br>• Hybu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth a chyfleoedd chwaraeon, a sicrhau eu bod ar gael yn rhwyddach |
| **MONITRO** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cronfeydd Strwythurol**<br><br>Cyfrifoldeb am fonitro yn barhaus (gweler 4 uchod). Ymysg elfennau eraill, ystyrir y canlynol:<br><br>• Materion gweithredu<br>• Hynt y partneriaethau lleol<br>• Hynt y cynlluniau gweithredu<br><br>**Allbwn:** adborth i'r Cabinet ar y cynigion | Yn barhaus | • Cynyddu nifer y swyddi a gwella'u hansawdd a lleihau diffyg gweithgarwch economaidd, yn arbennig mewn ardaloedd llai llewyrchus<br><br>• Gweithredu ar gyfle cyfartal fel conglfaen Cronfeydd Strwythurol Ewrop |
| **Bae Caerdydd**<br><br>Monitro datblygiad Bae Caerdydd | | |
| **Cynllun Gweithredu'r Cymoedd a Rhoi Cymunedau'n Gyntaf**<br><br>Ystyried y cynlluniau gweithredu drafft a monitro'u hynt (gyda phwyllgorau eraill) | | • Cynyddu nifer y swyddi a gwella'u hansawdd a lleihau diffyg gweithgarwch economaidd, yn arbennig mewn ardaloedd llai llewyrchus |

| | | |
|---|---|---|
| **Twristiaeth**<br><br>Monitro'r strategaeth dwristiaeth, gan gynnwys opsiynau i ddatblygu'r diwydiant twristiaeth, bwydydd amaethyddol a'r diwydiannau diwylliannol<br><br>Monitro hynt "Cymru a'r Byd" (Gwell Cymru) | | • Bydd strategaeth hyrwyddo a chyfathrebu o'r radd flaenaf wedi'i phennu a'i rhoi ar waith erbyn 2001<br><br>• Bydd nifer y teithiau twristiaeth i Gymru'n codi i 12.2 miliwn y flwyddyn drwy roi Strategaeth Dwristiaeth Cymru ar waith |
| **Archwilio ASPB (Rheol Sefydlog 9.7 (iii))**<br><br>• Awdurdod Datblygu Cymru (gan gynnwys FMPR)<br>• Bwrdd Croeso Cymru<br><br>Ymysg elfennau eraill, ystyrir y canlynol:<br><br>• Canlyniad yr FMPRs<br>• Llythyrau Cyfarwyddyd Strategol<br><br>**Allbwn**: Y Pwyllgor i ddosbarthu argymhellion i'r ASPBs lle bo'n briodol | Yn barhaus | |
| **Cyllideb (Rheol Sefydlog 9.8(ii))** | Yn unol ag amserlen y Rheol Sefydlog a monitro gwariant chwarterol | |
| **Derbyn adroddiadau oddi wrth Ysgrifennydd y Cynulliad ar faterion amserol ac ar hynt gweithredu'r polisïau economaidd.** | Ym mhob cyfarfod ar faterion brys neu faterion sy'n amlygu. Adroddiadau ysgrifenedig chwarterol. | |
| **Penodiadau Cyhoeddus** | Fel sy'n rhaid | |
| **Deddfwriaeth (Rheol Sefydlog 9.8(I) and 22)** | Fel sy'n rhaid | |